| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor Sir** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **10 Medi 2013** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Paul McGrady** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Richard Weigh, Prif Gyfrifydd** |
| **Teitl:** | **Cyllideb Refeniw 2014/15** |

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn darparu gwybodaeth am y sefyllfa ddiweddaraf o ran pennu cyllideb y cyngor ar gyfer 2014/15. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar gymeradwyo cyfres o arbedion arfaethedig ar gyfer 2014/15. Daw'r arbedion arfaethedig hyn yn sgil proses Heriau Gwasanaeth sydd wedi ei chynnal yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar gyllideb 2014/15 a chymeradwyo'r arbedion a gynigir yn Atodiad 1.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Nodi sefyllfa ddiweddaraf cyllideb 2014/15.

Cymeradwyo'r arbedion a gynigir yn Atodiad 1.

**4. Manylion am yr adroddiad**

Mae'r mwyafrif o gyllid y cyngor (oddeutu 78%) yn dod o Lywodraeth Cymru trwy'r Grant Cynnal Refeniw ac ailddosbarthu'r Trethi Annomestig Cenedlaethol. Yn 2013/14 y setliad terfynol ar gyfer Sir Ddinbych oedd £150.821 miliwn. Mae gweddill cyllid y cyngor yn cael ei ddarparu drwy Dreth y Cyngor (£40.7 miliwn wedi ei gyllidebu yn 2013/14). Felly mae effaith y symudiad ar y setliad yn fwy nag effaith y symudiad ar lefelau Treth y Cyngor.

Mae'r cyngor yn debygol o wynebu setliad cyllideb refeniw heriol yn 2014/15 ac wedi hynny. Er na chyhoeddir fersiwn ddrafft y Setliad Llywodraeth Leol tan ddechrau fis Hydref – lle caiff y sefyllfa ei hegluro, mae pob arwydd y bydd y setliad yn un gwael. Mae nifer o gyhoeddiadau a sylwadau gweinidogion yn cefnogi'r farn hon. Mae'r CLILC yn argymell, er dibenion cynllunio, y dylai'r cyngor ragdybio gostyngiad ariannol o -4% yn 2014/15. Mae gostyngiad o 1% yn setliadau refeniw'r cyngor yn cyfateb i oddeutu £1.5 miliwn.

Mae'n aneglur pam bod angen gostyngiad o'r fath yn 2014/15 neu yn 2015/16, gan nad yw setliad Llywodraeth y DU i Gymru yn adlewyrchu'r angen amdano. Mae cyhoeddiadau diweddar ynglŷn â 'gostyngiadau Seisnig i lywodraeth leol Cymru' yn debygol o fod yn sgil polisi Llywodraeth Cymru i 'ddiogelu' gwasanaethau (h.y. dargyfeirio adnoddau) meysydd fel iechyd.

Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio dylanwadu ar benderfyniadau lleol drwy 'ddiogelu' cyllidebau ysgolion a gofal cymdeithasol. Mae hyn wedi ei fynegi drwy gyfarwyddo cynghorau i ddarparu cyllid i'r meysydd hyn ar raddfa sydd 1% yn fwy na'r setliad y mae Llywodraeth Cymru yn ei dderbyn gan Lywodraeth y DU (sef y Grant Bloc). Mae hyn yn golygu bod dros hanner cyllideb refeniw'r cyngor wedi ei diogelu yn y ffordd hon. Mae parhau i roi'r sicrwydd yma i rai gwasanaethau ar lefel cenedlaethol yn golygu y gall gostyngiadau ariannol posib effeithio'n wahanol ar feysydd heb eu diogelu ac nad oes gan y cyngor yr hyblygrwydd i reoli'r effaith.

Bydd y cyngor hefyd yn dioddef effaith niweidiol newidiadau sy'n digwydd o ganlyniad i ddata'r cyfrifiad sydd wedi amlygu fod poblogaeth y cyngor yn llai nag oedd wedi ei amcangyfrif mewn amcangyfrifon poblogaeth cenedlaethol. Mae poblogaeth yn ddangosydd allweddol sy'n cael ei ddefnyddio i ddosbarthu cyllid llywodraeth ac mae canlyniad cyfrifiad 2011 yn dangos bod, ar lefel cenedlaethol, twf poblogaeth wedi ei oramcangyfrif. Mae effaith ariannol y newid yn debygol o fod yn oddeutu £3.1 miliwn ond nid yw Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau sut caiff y newid ei weithredu – h.y. a fydd yr effaith yn cael ei rannu dros gyfnod o flwyddyn neu sawl blwyddyn.

Bydd y cyngor hefyd yn wynebu pwysau chwyddiannol mewn sawl maes fel cyflogau, pensiynau ac ynni yn ogystal â phwysau o ran y galw am wasanaethau.

O ystyried yr uchod, mae'n debygol y bydd targed sylweddol ar gyfer arbedion yn 2014/15. Mae sawl ansicrwydd ar hyn o bryd ac felly nid oes modd darparu ffigwr benodol, ond os yw'r gostyngiad i setliad refeniw'r cyngor wedi ei bennu ar lefel o -4%, ac os gweithredir effaith y newid mewn blwyddyn, yna nid yw rhagdybiaeth cynllunio o ostyngiad rhwng £8 a £9 miliwn yn afresymol.

Mae gwasanaethau ar hyn o bryd yn modelu senarios cyllideb ac yn adnabod arbedion posib. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i'r aelodau etholedig yn ystod gweithdai cyllideb ar 21 Hydref a 9 Rhagfyr. Cynigir y dylid cyflwyno adroddiad i'r Cyngor Sir ar 3 Rhagfyr lle gellir cytuno ar yr arbedion a gefnogir gan yr aelodau etholedig a'r arbedion sy'n weddill cyn i'r Cyngor gytuno ar y gyllideb derfynol ar 4 Chwefror.

Yn y cyd-destun hwnnw, cafodd proses Heriau Gwasanaeth ei rhoi yn ei lle fel rhan o setliad cyllideb 2012/13 ac mae 2013/14 eisoes wedi adnabod arbedion posib o £1.716 miliwn ar gyfer 2014/15. Mae'r cynigion wedi eu hystyried mewn manylder yn ystod cyfarfodydd heriau gwasanaeth ac wedi eu cadarnhau yn ystod cyfarfodydd diweddar gyda phenaethiaid gwasanaeth.

Mae'r cynigion ar gyfer arbedion wedi eu nodi yn Atodiad 1 ac fe'u disgrifir fel Cam 1 o'r broses o gyflawni'r targed sylweddol posib ar gyfer 2014/15. Mae'r Atodiad yn dangos y meysydd lle cynigir yr arbedion ar eu cyfer ac, er mwyn darparu cyd-destun, yn dangos cyllideb refeniw net 2014/15 pob maes yn ogystal â chanran yr arbedion cyllideb net sydd wedi eu cyflawni ers 2010/11. Mae cyfanswm rhai gwasanaethau yn 0 fel rhan o'r cam hwn ond mae gofyn iddyn nhw gynnig arbedion pellach yn yr wythnosau nesaf wrth i broses gyllideb 2014/15 fynd rhagddi.

Mae'r arbedion corfforaethol a amlygwyd fel Moderneiddio'r Cyngor yn ffurfio rhan o darged i gyflawni gwerth £3.0 miliwn o arbedion yn y tair blynedd nesaf wrth i brosiectau gael eu datblygu i ddarparu effeithlonrwydd a meithrin cymhwysedd mewn gwasanaethau. Mae sawl prosiect effeithlonrwydd yn cael ei ddatblygu, gan gynnwys buddsoddi mewn Rheoli Dogfennau a Chofnodion Electronig a Chofrestr Anfonebau Canolog (ffordd o gynyddu nifer yr anfonebau sy'n cael eu derbyn a'u prosesu'n electronig) a phrosiectau sy'n cynyddu'r defnydd o dechnoleg er mwyn cyflawni arbedion trwy leihau'r angen i deithio, cynyddu hyblygrwydd a gweithredu systemau gweinyddol mwy effeithlon. Yn y pen draw bydd targedau arbedion moderneiddio yn cael eu cyflawni gan y gwasanaethau.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheolaeth effeithiol o gyllideb refeniw'r cyngor a darparu strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni'n sail i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae'r arbedion a nodwyd yn Atodiad 1 yn £1.716 miliwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad?

Gwasanaethau unigol sy'n gyfrifol am gynnal asesiadau effaith ar eu cynigion am arbedion sydd wedi eu cynnwys yn y gyllideb. Mae crynodeb o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar effaith yr arbedion arfaethedig wedi ei amgáu.

## 8. Pa ymgynghori a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Mae'r cynigion ar gyfer arbedion 2014/15 eisoes wedi eu hystyried mewn cyfarfodydd heriau gwasanaeth yn 2011 ac yn 2012 a chawsant eu cynnwys fel rhan o'r targedau tair blynedd a ddynodwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Cynhaliwyd ymarferion heriau gwasanaeth gyda phob pennaeth gwasanaeth ac roedd cynrychiolwyr o'r pwyllgor archwilio a'r Cabinet yn rhan o'r ymarferion hyn. Mae copi o'r adroddiad hwn wedi ei gynnwys yn rhaglen Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol er eu hystyriaeth ar 4 Medi 2013.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae’n debyg y bydd y tair blynedd nesaf yn her fawr. Mae yna ansicrwydd a chafeatau ond mae’n bur debygol y bydd angen targed arbedion sylweddol yn 2014/15 ac wedi hynny. Bydd gan aelodau etholedig ran allweddol i’w chwarae o ran penderfynu ar ymateb y cyngor i’r her o’n blaenau. Bydd cytuno ar y cynigion yn yr adroddiad yma’n golygu y gellir canolbwyntio’n well ar weddill y dasg sydd o’n blaenau i sicrhau bod y cyngor yn pennu cyllideb gynaliadwy ar gyfer 2014/15 a Chynllun Ariannol Tymor Canolig cadarn ar gyfer y tair blynedd nesaf.

## 10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

Mae’n bosib mai hwn yw’r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae’r cyngor wedi ei wynebu. Mae’r cynigion a nodwyd yn yr adroddiad hwn a’u heffaith ar wasanaethau wedi eu hasesu yn ystod dwy rownd o heriau gwasanaeth. Bydd methu darparu'r strategaeth gyllideb y cytunwyd arni yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol a’r blynyddoedd i ddod. Bydd monitro a rheoli’r gyllideb yn effeithiol yn helpu i sicrhau y cyflawnir y strategaeth ariannol.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Gofynnir i awdurdodau lleol dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn gywir.